

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 13<sup>EG</sup> IONAWR 2021**  
**(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

- 1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR) a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.
- 1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Diane Roberts (DR), Elen H Edwards (EHE), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD) a Garffild Ll Lewis (GLL)
- 1.3** Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ)
- 1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW). CR am gysylltu efo GW i weld os yw am gario ymlaen fel Cynghorydd gan nad yw wedi mynychu ers tro a heb yrru ymddiheuriadau.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 16<sup>EG</sup> RHAGFYR 2020**

Cywiros fod REW yn bresennol. Cynnigwyd yn gywir fel arall gan EW ac eilwyd gan AV.

**4 MATERION YN CODI**

CR yn adrodd ei fod wedi bod mewn cyswllt efo Cadw Cymru'n Daclus ynglyn â'r cynllun byd natur yn y pentref, ddim yn gweld problem efo'r darn o dir ddynodwyd. Aros rwan i gael cadarnhad i wneud yn siwr fod y darn tir yn gallu cael ei ryddhau i fwrw ymlaen a'r prosiect byd natur.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 5.1** 0/47988: dim gwrthwynebiad, cymeradwyo.
- 5.2** 0/48007: dim gwrthwynebiad, cymeradwyo ar sail fod y gwaith papur i gyd yn ei le.

**6 MATERION ARIANNOL**

- 6.1** Cyllideb 2021/22: Adroddodd fod EW anfonebau sgipiau heb gael eu derbyn tan yr wythnos diwethaf (er taw ond un Pandy Tudur sydd wedi ei dderbyn am £264 yn cynnwys TAW). Defnyddwyd y ffigur yma ar gyfer y gyllideb. Costau mynwentydd – bydd angen hysbysu tender yn fuan am hyn. Trafodwyd fod y ffigur ddynodwyd i'w gadw yr un fath ar hyn o bryd. Trafododd EHE y ffigurau yn y precept rhagdybiedig sydd hanner y gyllideb a drafodwyd ar gyfer y flwyddyn. GD wedi holi'r cyfrifydd am y TAW on heb glywed yn ôl eto. Trafodwyd cyflog clerc, penderfynwyd hanneru'r ffigur ddynodwyd y flwyddyn diwethaf. Penderfynwyd fod angen cadw costau cyfieuthu ar y pryd yn y gyllideb am £500. Newid disgrifiad cyfrifiadur i gostau swyddfa. Ddim yn gwybod os oes etholiad yn mynd i gael ei gynnal ym mis Mai (oherwydd cyfyngiadau Covid-19) eto felly gadael hwn yr un fath. Cododd DR fod angen cael prisiau yswiriant gan gwmnïau eraill eleni. EW am ofalu cyn mis Mai. Cynyddu costau blodau i £200. Trafododd EHE fod £860 llai yn y gyllideb eleni. Ffigur yn y banc ar 5<sup>ed</sup> Ionawr 2021, £23,177.51. Cymeradwyodd y Cynghorwyr y gyllideb fel y drafftwyd gan EHE. EW am yrru'r gyllideb ymlaen i'r Cyngor Sir erbyn 22<sup>ain</sup> Ionawr 2021. Diolchwyd yn fawr i EHE, DR a GD am eu gwaith wrth baratoi'r gyllideb.

**6.2** Grant o Gronfa Clocaenog: ffenestr yn agored ar gyfer grantiau ar gyfer unrhyw beth sydd yn mynd ymlaen yn lleol. GLL yn holi os yw hwn yn agored i Gyngor Cymuned, EHE yn awgrymu ei fod yn cysylltu efo Esyllt Adair i gael mwy o wybodaeth am hyn. Cyngorwyr i annog pobl i ymgeisio am y grantiau, posibl cael grant o Cronfa Bro Cernyw hefyd wrth feddwl ymlaen at y flwyddyn.

## **7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Sylw ynglyn ac arian wrth gefn sydd gan y Cyngor Cymuned, gofyn os oedd modd defnyddio fel hwb i'r ardal i helpu gyda sgil effeithiau Covid-19 fel help i fusnesau lleol.

O ran y Cyngor Sir, ansicrwydd arian sydd yn dod i mewn i'r Cyngor oherwydd sgil-effeithiau Covid-19.

Canolfannau brechu lleol wedi eu trefnu ar gyfer brechiadau Covid-19. Rhestr blaenoriaethau i'w ddilyn, pobl sydd ar dop y rhestr wedi dechrau cael y brechiadau. Llythyr i fod i fynd allan yn ardal y Cyngor erbyn diwedd yr wythnos yma efo amcan o pa bryd fydd pobl yn cael eu brechiadau.

Sefyllfa ynglyn â'r ysgolion yn ddyrys ar hyn o bryd, dysgu adref oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Sefyllfa yn anhebygol o newid tan oleiaf ddechrau Chwefror.

REW yn adrodd fod Tŷ'r Ysgol, Gwytherin wedi dod yn wag, gwaith atgyweirio angen ei wneud ar yr adeilad. Aros am ganllawiau gan y Cyngor Sir. Canolfan Gwytherin wedi bod yn derbyn arian rhent ar gyfer yr adeilad ers blynnydoedd, mwy na thebyg fydd pwyllgor Canolfan Gwytherin yn gwneud ceisiadau am grantiau o Gronfa Bro Cernyw a Chronfa Clocaenog.

## **8 BILIAU**

**8.1** Canolfan Cymuned Bro Cernyw, llogi ystafell mis Chwefror 2020: £5 cytunwyd i dalu.

**8.2** Enlli £18.92, cytunwyd i dalu.

**8.3** Anfoneb sgip Pandy Tudur: £220 + TAW. Aros am yr ail anfoneb i'w talu.

## **9 MATERION LLEOL**

**9.1** EW wedi bod yn meddwl gan ein bod wedi mynd i gyfnod clo arall oherwydd Covid-19, mae'n debyg fod sawl un yn teimlo'n unig ac yn ynysig, mae yn y broses o ail-gynnau criw gwirfoddolwyr yng Ngwytherin gan fod pobl wedi cael cyngor i hunan ynysu eto. Awyddus i sefydlu rhywbeth yn lleol megis caffi i daro mewn unwaith yr wythnos er enghraifft i estyn allan at drigolion lleol, ac yn teimlo y dylsai'r Cyngor Cymuned gymeryd perchnogaeth o hyn. EHE yn ategu efallai y buasai'n syniad rhoi arian tuag at liniaduron i blant sydd yn methu fforddio un neu mewn cartrefi efo mwy nac un plentyn ac angen mwy o liniaduron i'r plant allu gwneud eu gwaith ysgol. EW yn awgrymu efallai fod y Cyngor yn prynu gliniaduron i'w llogi allan am gost bychan.

DR yn adrodd fod Clwb Coffi yn cael eu redeg yn wythnosol yn yr Eglwys yn Llangernyw pan mae rheolau yn caniatáu.

Dim wedi ei drefnu eto, ond EW yn gofyn i'r Cyngorwyr feddwl am syniadau. Eitem i'w roi ar agenda mis nesaf i drafod ymhellach a rhoi cyfle i'r Cyngorwyr hel syniadau.

GLL wedi codi'r pryder fod sawl cartref efo un dyfais ar gyfer gwaith ysgol pan fod angen mwy, Cyngor Sir yn gwneud ymchwil am hyn, mae am fynd ar ôl y Cyngor Sir i gael diweddariad am hyn. Beth bynnag fydd yr ymchwiliad yn ei adrodd, mae'n debyg y bydd bylchau felly gall y Cyngor drafod beth all ei wneud i helpu.

EW yn gofyn os taw nawr yw'r amser i ddiwygio'r rheolau ar gyfer Cronfa Bro Cernyw, eto i'w drafod yn y pwyllgor nesaf. EHE yn codi fod angen ail strwythuro'r Gronfa o dan yr amgylchiadau fel fod yr arian yn cael ei ddefnyddio.

AV adrodd fod y siop yn Llanfair Talhaearn yn ail agor mewn ychydig wythnosau.

**DR** cwyn fod y loriau ailgylchu yn dal i drafeilio o gwmpas efo'u hochrau yn agored felly sbwriel yn cael ei chwythu allan. Gofynnodd os oedd ffyn codi sbwriel a siacedi yn y pentref, Jane Roberts.

Wedi cael cais fod angen barrier gyferbyn â'r ffordd sydd yn dod i lawr heibio'r Graig, pobl wedi methu stopio yn y rhew diweddar.

Cwyn am dyllau ar ffordd Hafodunos, gofyn pryd fydd rhain yn cael eu cau.

**REW** gofyn beth yw hanes mast ffôn ym Mhen y Fron, Gwytherin. Gofyn am fwy o wybodaeth. EW wedi bod yn trafod efo rhywun arall, dim dyddiad ar gyfer hyn eto.

Tarmac wedi torri yn lleol, wedi hysbysu'r Cyngor Sir.

**GD** holi os oedd diweddariad ar fater y mandad banc gan HSBC. Neb wedi cael diweddariad, os oes unrhyw beth i'w yrru, byddai'n cael ei yrru i GD. GD i gysylltu efo'r banc i ofyn.

## **10 CYFARFOD NESAF**

24<sup>ain</sup> Chwefror 2021 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:50yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan